



Newyddlen – Rhagfyr 2020

Croeso i newyddlen ddiweddaraf Morlais sy'n dod a'r diweddaraf am y prosiect i chi.

Cynllun ynni llanw Menter Môn yw Morlais gyda'r nod o sicrhau budd i gymunedau lleol, yr economi a'r amgylchedd.

Os yr hoffech wybod mwy am Morlais cysylltwch gyda'r tîm ar info@morlaisenergy.com.

Ymchwiliad Cyhoeddus

Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi bod yn cymryd rhan mewn Ymchwiliad Cyhoeddus fel rhan o'r broses caniatâd i ddatblygu Morlais o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith. Yn ystod yr ymchwiliad, mae'r Arolygydd Cynllunio yn ystyried ein tystiolaeth a'n sylwadau yn ogystal â rhai gan bartïon ac unigolion eraill sydd â diddordeb yn y cynllun. Oherwydd cyfyngiadau parhaus Covid19 mae'r ymchwiliad yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl ar-lein, dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd erioed. Roedden ni yn falch o weld ein datblygwyr a phartneriaid allweddol eraill yn cyfrannu at yr ymchwiliad. Bydd yr ymchwiliad ffurfiol yn dod i ben fis Chwefror ac mae disgwyl penderfyniad gan Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2021. I gael rhagor o wybodaeth cliciwch [yma](#).

Gall Morlais fod ymysg y prosiectau cyntaf i fanteisio ar Fargen Twf Gogledd Cymru

Mae Bargen Twf Gogledd Cymru wedi cymryd cam sylweddol ymlaen yr wythnos hon wrth i'r partneriaid gytuno'r pum rhaglen sy'n rhan o'r fargen £240 miliwn.

Gyda'r cytundeb yn ei le gall Morlais, fod ymysg y prosiectau cyntaf i fanteisio. Mae hwn wir yn newyddion da ac yn hwb sylweddol i'n hymdrechion i sicrhau arian ar gyfer y cynllun. Gan ddibynnu ar ein hachos busnes gall Morlais dderbyn hyd at £9miliwn o'r Fargen fyddai'n rhyddhau cyllid pellach o £26 miliwn o Swyddfa Cyllid Ewropeidd Cymru (WEFO). Byddwn yn eich diweddarau ar hyn pan ddaw newyddion pellach. I ddarllen ein datganiad llawn cliciwch [yma](#).

Cefnogaeth leol i Morlais

Mae busnesau lleol a phobl ifanc wedi bod yn rhoi eu cefnogaeth i Morlais dros y misoedd diwethaf mewn fideo wedi ei chynhyrchu gan Menter Môn. Mae swyddi a

chyfleodd am hyfforddiant yn uchel ar restr blaenoriaeth y bobl ifanc, a dim syndod bod sawl busnes yn edrych ymlaen at y cyfleoedd o ran y gadwyn cyflenwi. Mae nifer hefyd yn sôn am newid hinsawdd a'r rôl bwysig all prosiectau fel Morlais chwarae wrth geisio tacio hyn. I weld y fideo tri munud cliciwch [yma](#).

Chwalu'r myth

Fel rhan o'n gwaith cyfathrebu parhaus gyda chymunedau Ynys Môn a rhanddeiliaid eraill rydym wedi paratoi graffeg sy'n herio'r rhai elfennau o'r prosiect sy'n cael eu cam ddeall o bryd i'w gilydd. I ddarllen y ddogfen gyfan ewch i'r [gwefan](#) – neu gallwn anfon copi atoch, e-bostiwch ni i drefnu hyn ar infor@morlaisenergy.com.

Cyfeirlyfr Busnesau

Oes gennych chi fusnes yng ngogledd Cymru all fod yn gyflenwr i Morlais?

Yn y newyddlen ddiwethaf roedden ni'n sôn ein bod yn datblygu cyfeirlyfr o'r holl wasanaethau a busnesau all fod yn rhan o gadwyn cyflenwi Morlais. Y bwriad yw cyflwyno'r cyfeirlyfr i'r cwmnïau datblygu tyrbinau fel eu bod yn gweld ac yn defnyddio'r ystod eang o wasanaethau sydd ar gael yn lleol. Rydym yn dal i gasglu enwau felly cysylltwch os hoffech chi gael eich cynnwys yn y cyfeirlyfr trwy e-bostio info@morlaisenergy.com.

Mae'r cyfleoedd yn eang ac yn cynnwys nifer fawr o feysydd e.e. gwasanaethau peirianeg electroneg a logisteg; gwasanaethau morol; llety ac arlwyo; iechyd a diogelwch; trafniadaeth a llawer mwy.

Mae nifer o ddigwyddiadau cwrdd â'r prynwr eisoes wedi cael eu cynnal gan gynnwys un gan Orbital Marine fis Awst, ac un arall gyda'r datblygwr, Verdant, ym mis Medi. Wrth ymuno â'n rhestr bostio byddwn yn rhoi gwybod i chi am ddigwyddiadau a chyfleoedd fel hyn.

Canolfan Hydrogen Caergybi

Nid Morlais yw'r unig brosiect mawr mae Menter Môn wedi bod yn ymwneud ag o ym ddiweddar. Fis diwethaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer datblygu canolfan hydrogen posib yng Nghaergybi. Mae hwn yn brosiect sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Môn fydd yn cynnwys cynhyrchu hydrogen yng Nghaergybi yn ogystal â chanolfan dosbarthu tanwydd. Dyma brosiect cyntaf o'i fath yng Nghymru gyda photensial hefyd i gysylltu â'r sector ynni adnewyddadwy ar Ynys Môn, gan gynnwys Morlais. Rydym yn edrych ymlaen felly at glywed mwy wrth i'r cynlluniau ddatblygu.

Asesu effaith ar y Gymraeg

Mae Morlais yn awyddus i sicrhau bod y prosiect yn chwarae ei ran wrth ddiogelu'r Gymraeg, ac mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd o gasglu data gwaelodlin er mwyn gallu mesur effaith y prosiect ar yr iaith. Bydd strategaeth yn cael ei chreu hefyd i sicrhau bod unrhyw effaith yn positif ac mae bwriad i osod targedau

cytundebol ar ddatblygwyr i gyflogi ac i wario yn lleol, ac i fabwysiadu'r Gymraeg mewn unrhyw cysylltiadau cyhoeddus a'u cyfathrebu

Yn ddiweddar, rhoddodd Gerallt Llewelyn Jones, un o gyfarwyddwyr Morlais gyflwyniad i Fforwm Iaith Ynys Môn, lle cafodd gyfle i ddiweddarau partneriaid ac aelodau'r fforwm.

Gweminarau Selkie

Mae chwaer gynllun Morlais, sef Selkie wedi bod yn cynnal cyfres o weminarau am ddim ar wahanol agweddau ar y sector ynni morol. Ers y cylchlythyr diwethaf mae dau arall wedi'u cynnal - un ym mis Hydref ar 'Gweithredu, Cynnal a Chadw yn y sector Ynni Morol' ac un arall ym mis Tachwedd ar 'Sylfeini a Systemau Angori ar gyfer y Sectorau Ynni Llanw.

Mae pedwerydd gweminar wedi'i gynllunio ar gyfer mis Ionawr. Bydd yn canolbwyntio ar 'Sgiliau ar gyfer y Sector Ynni Morol yng Nghymru ac Iwerddon' gyda siaradwyr o'r diwydiant, y gadwyn gyflenwi a sefydliadau addysg yn rhoi eu safbwynt ar y bylchau mewn sgiliau yn y diwydiant a sut y gallwn ddatrys hyn.

Bydd sesiynau rhwydweithio busnes ar gyfer aelodau Selkie hefyd yn cychwyn ym mis Ionawr gyda grwpiau bach o ddatblygwyr a chwmnïau cadwyn gyflenwi. Dyma gyfle i fusnesau hyrwyddo eu gwasanaethau a chreu cysylltiadau yn y diwydiant.

Am wybodaeth bellach neu i ymuno â rhestr bostio Selkie, cysylltwch â sophie@mentermon.com.

Rydym am gymryd y cyfle hwn i ddymuno Nadolig Llawen iawn i chi a'ch teuluoedd – ac am 2021 diogel a iach.

Pwy ydym ni? Mae Menter Môn yn fenter gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar sicrhau budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i gymunedau lleol.

Beth ydym yn ei wneud? Rhoi'r isadeiledd angenrheidiol yn ei le er mwyn galluogi datblygu technoleg ynni llif llanw i gynhyrchu trydan

Ble rydym yn gwneud hyn? Mae ardal y prosiect oddi ar arfordir gorllewin Ynys Cybi mewn parth sydd wedi ei ddynodi gan Ystâd y Goron ar gyfer datblygu technoleg ynni morol.

Pam rydym yn gwneud hyn? Rydym yn credu bod gan ynni llanw rôl i chwarae fel ffynhonnell di-garbon i gwrdd ag anghenion trydan y dyfodol.